# APELIADAU ACADEMAIDD GWEITHDREFN AR GYFER GRADDAU YMCHWIL 2026/2027

| Teitl: Rheoliadau Apeliadau Academaidd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad Cyhoeddi** | **Disgrifiad o'r Adolygiad** | **Awdur** | **Cymeradwywyd gan a'r Dyddiad** | **Dyddiad Adolygu Nesaf** |
| 1.0 | Medi 2019 | Rhifyn Cyntaf | Siobhan Coakley | QAC/Bwrdd Academaidd 4 Awst 2019 | Mehefin 2020 |
| 2.0 | Medi 2020 | Ail Rifyn | Siobhan Coakley | QAC/Bwrdd Academaidd 3 Mehefin 2020 | Mehefin 2021 |
| 3.0 | Medi 2021 | Trydydd Rhifyn | Gwenllian Jones | QAC/Bwrdd Academaidd 19 Mai 2021 | Mehefin 2022 |
| 4.0 | Medi 2022 | Pedwerydd Rhifyn | Gwenllian Jones | QAC/Bwrdd Academaidd | Mehefin 2024 |
| 5.0 | Medi 2024 | Pumed Rhifyn | Siobhan Coakley | QAC/Bwrdd Academaidd 26 Mehefin 2024 | Mehefin 2025 |
| 6.0 | Medi 2025 | Chweched Rhifyn | Louise Neate/ Niamh Križan | QAC/ Bwrdd Academaidd 25 Mehefin 2025 | Mehefin 2026 |
| 7.0 | Medi 2026 | Seithfed Rhifyn | Louise Neate/ Niamh Križan | QAC/ Bwrdd Academaidd 24 Mehefin 2026 | Mehefin 2027 |

# CYNNWYS

**ADRAN UN:** CYNGOR A CHYMORTH I FYFYRWYR....2

**ADRAN DAU:** GWEITHDREFN CAM 1 – DATRYS YN GYNNAR....2

**ADRAN TRI:** GWEITHDREFN CAM 2 – YSTYRIAETH YR APÊL GAN Y GYFADRAN.... 3

Amserlenni.... 3

Beth all myfyrwyr apelio amdano.... 3

Seiliau dros apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed mewn perthynas ag ymchwil.... 3

Prosesu apeliadau.... 4

**ADRAN PEDWAR:** GWEITHDREFN CAM 3 – CAIS AM ADOLYGIAD.... 5

Seiliau dros adolygu.... 5

Amserlenni.... 5

Ystyriaeth gychwynnol i'r achos.... 6

Panel Adolygu.... 6

**ADRAN PUMP:** SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL (OIA).... 7

.

## ADRAN UN: CYNGOR A CHYMORTH I FYFYRWYR

1.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu llesiant emosiynol, meddyliol a chorfforol yr holl bartïon sy'n ymwneud â gweithredu ei Gweithdrefn Apeliadau Academaidd. Mae cyngor a chymorth cyfrinachol ar gael gan:

Undeb y Myfyrwyr - https://www.uswsu.com/
Gwasanaethau Llesiant y Brifysgol - https://www.southwales.ac.uk/cy/myfyrwyr-presennol/llesiant-meddyliol/
Y Gaplaniaeth - https://www.southwales.ac.uk/cy/gwasanaethau/y-gaplaniaeth/

1.2 Mae'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn darparu arweiniad awdurdodol, ffurfiol ar gymhwysedd a gweithrediad y Rheoliadau a'r Weithdrefn Apeliadau Academaidd.

1.3 Pan nodir bod angen ystyried apêl yn gyflym; er enghraifft pan fydd cynnydd neu oedi yn effeithio ar iechyd y myfyriwr, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod hyn yn cael ei amlygu i'r staff sy'n ystyried yr apêl a'i gyflymu fel y bo'n briodol.

1.4 Fel arfer, ni fydd gofyn i fyfyrwyr fynychu unrhyw gyfarfodydd fel rhan o'r Weithdrefn Apêl Academaidd. Fodd bynnag, os caiff y myfyriwr ei wahodd i fynychu cyfarfod, mae caniatâd iddynt ddod â pherson i'w gefnogi; er enghraifft, swyddog o Undeb y Myfyrwyr, neu ffrind. Os hoffai'r myfyriwr i berson cymorth fod yn bresennol mewn cyfarfod gyda nhw, rhaid i'r myfyriwr hysbysu Uned Gwaith Achos Myfyrwyr am enw, statws a manylion cysywllt y person o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod.

1.5 Mae Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cadw'r hawl i wrthod presenoldeb person sy'n cefnogi os penderfynir bod gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â'r person enwebedig, ac os felly, rhoddir cyfle i'r myfyriwr enwebu person sy'n cefnogi gwahanol.

1.6 Rôl person cymorth yw bod yno i'r myfyriwr yn ystod y cyfarfod fel presenoldeb cefnogol. Nid eu rôl yw cynrychioli'r myfyriwr, mynychu cyfarfodydd ar eu rhan, eirioli ar eu rhan, neu siarad ar eu rhan; oni bai bod cais wedi'i wneud yn ysgrifenedig i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr a chytunir ar hyn gan Bennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) fel addasiad rhesymol.

1.7 Nid yw gweithdrefnau Prifysgol De Cymru yn gyfreithiol eu natur. O ganlyniad, ni ddylai myfyrwyr fod angen cefnogaeth na chynrychiolaeth gyfreithiol arnynt mewn perthynas â'r Weithdrefn Apêl Academaidd. Fodd bynnag, os yw'r myfyriwr yn dymuno cael cefnogaeth/cynrychiolaeth, rhaid iddynt wneud cais am ganiatâd yn ysgrifenedig i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr (studentcasework@southwales.ac.uk). Am ganllawiau ar ofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol, cyfeiriwch at y Weithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Gynrychiolaeth Gyfreithiol

1.8 Os bydd y Brifysgol yn derbyn camau cyfreithiol ffurfiol, gan gynnwys gohebiaeth cyn gweithredu gan gyfreithiwr ar ran myfyriwr, gall roi'r gorau i weithredu o dan y weithdrefn hon, cynghori yswirwyr a phenodi cynrychiolwyr cyfreithiol (fel y bo'n briodol) i ymateb i'r achos cyfreithiol.

## ADRAN DAU: GWEITHDREFN CAM 1 – DATRYS YN GYNNAR

2.1 Cynghorir myfyrwyr i drafod unrhyw bryderon sydd gennych am eich canlyniadau neu benderfyniad y Pwyllgor Graddau Ymchwil/Pwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadran/ei fwrdd dilyniant, gyda'r aelod perthnasol o staff yn y lle cyntaf.

.

## ADRAN TRI: GWEITHDREFN CAM 2 – YSTYRIAETH YR APÊL GAN Y GYFADRAN/YSGOL RADDEDIGION

**Amserlenni**

3.1 Mae apeliadau fel arfer yn sensitif o ran amser ac mae angen ystyriaeth amserol i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar ddilyniant y myfyriwr. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno apêl o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi **ni waeth unrhyw ddatrysiad cynnar sy'n cael ei geisio**, gan ddefnyddio 'Ffurflen Apêl Gradd Ymchwil' a gan gynnwys tystiolaeth ategol briodol. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys gohebiaeth negeseuon e-bost gan oruchwylwyr i gefnogi'r apêl.

3.2 Byddwn ond yn derbyn apeliadau hwyr i'w hystyried os gall y myfyriwr ddarparu rheswm da (a ategir gan dystiolaeth pan ofynnir amdano) dros gyflwyno apêl y tu allan i'r amserlen benodol. Bydd angen ystyried goblygiadau fisa wrth ystyried unrhyw apeliadau a gyflwynir, gyda rheswm da, y tu allan i'r amserlen benodol. Ni allwn dderbyn apeliadau fwy na dau fis ar ôl cyhoeddi eich canlyniadau, oherwydd yr amserlenni lle gellir ystyried apeliadau yn logistaidd a'r rhwymedi y gellir eu gweithredu.

3.3 Lle nad yw'n bosibl i'r Brifysgol gadw at yr amserlenni penodedig, a nodir trwy gydol y Weithdrefn hon; er enghraifft, oherwydd cymhlethdod yr achos, bydd y Brifysgol yn ysgrifennu at y myfyriwr gan ddarparu'r rheswm dros yr oedi a dyddiad diwygiedig ar gyfer canlyniad eich apêl.

**Beth all myfyrwyr apelio amdano**

3.4 Gallwch myfyrwyr apelio am:

- benderfyniad Pwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadran neu'i fwrdd dilyniant am ddilyniant neu drosglwyddo;
- penderfyniad y Pwyllgor Graddau Ymchwil am yr arholiad.

**Seiliau dros apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed mewn perthynas ag ymchwil**

3.5 Mae'r seiliau y gall myfyrwyr apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed mewn perthynas ag ymchwil fel a ganlyn. Rhaid i'r apêl ddangos, gyda thystiolaeth, o leiaf un o'r canlynol:

a) bu camgymeriad gweinyddol sy'n berthnasol i ganlyniad penderfyniad academaidd;

b) ni ddilynwyd proses briodol mewn perthynas ag asesu'ch cynnydd;

c) ni wnaethpwyd penderfyniad academaidd yn unol â rheoliadau'r cwrs.

ch) roedd amgylchiadau yn effeithio ar eich perfformiad viva, nad oedd yr arholwyr yn ymwybodol ohonynt yn yr arholiad;

d) roedd camgymeriad/afreoleidd-dra gweithdrefnol yn y ffordd y cynhaliwyd archwiliad sy'n bwrw amheuaeth ar a allai'r canlyniad fod wedi bod yn wahanol, pe na bai hyn wedi digwydd;

.

dd) gallwch ddangos eich bod wedi cael eich asesu'n annheg neu'n amhriodol ar gyfer arholiad viva gan un neu fwy o'r arholwyr.

3.6 Heblaw lle mae sail dd) yn berthnasol, ni chaiff y myfyriwr herio barn academaidd yr arholwyr. Ni fydd apêl yn cael ei derbyn ar sail anghytuno â barn academaidd neu broffesiynol yr arholwyr a/neu'r Pwyllgor Graddau Ymchwil a/neu Bwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadran neu'i fwrdd dilyniant, h.y. lle mae'r myfyriwr yn credu eu bod yn haeddu marc uwch neu ganlyniad gwahanol. Mae barn academaidd a phroffesiynol yn cynnwys asesu darn penodol o waith a/neu ddod i benderfyniad ar eu dilyniant, neu ar lefel derfynol y dyfarniad, ar sail marciau, graddau a gwybodaeth arall am y perfformiad.

**Prosesu apeliadau**

3.7 Ar ôl derbyn eich apêl academaidd, bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn gwirio bod eich apêl yn dderbyniol; hynny yw:

- nid yw'n cwestiynu barn academaidd neu broffesiynol
- mae'r apêl yn seiliedig ar y seiliau a ganiateir (a-dd);
- ni ddylid cyfeirio'r mater a godwyd at weithdrefn arall;
- mae'r ffurflen wedi'i chwblhau'n gywir, yn cynnwys yr holl dystiolaeth briodol ac wedi'i chyflwyno ymhen 10 diwrnod gwaith o gyhoeddi canlyniadau'r asesiad neu ei chaniatáu o dan 3.2.

3.8 Os nad yw'r apêl yn bodloni'r gofynion a nodir yn adran 3.7, bydd yn cael ei ystyried yn anghymwys a bydd Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol yn cael ei anfon i'r myfyriwr (gweler adran 5.1).

3.9 Os yw'r apêl yn gymwys, bydd yn cael ei gyfeirio at Enwebai o fewn y Gyfadran na fydd wedi bod yn rhan o'r ystyriaeth o ganlyniadau'r myfyriwr ("Enwebai'r Gyfadran").

3.10 Ymdrinnir ag apeliadau Cam 2 yn bennaf ar sail y ddogfennaeth y mae'r myfyriwr wedi'i darparu. Fodd bynnag, os bydd Enwebai'r Gyfadran yn ystyried bod angen, gall ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig neu dystiolaeth lafar gan yr arholwyr, gan bobl eraill yn bresennol yn yr arholiad llafar, gan oruchwylwyr neu aelodau eraill o'r staff academaidd, neu dystiolaeth neu ddatganiadau pellach gan y myfyriwr (naill ai'n ysgrifenedig neu drwy gyfarfod gydag Enwebai'r Gyfadran).

3.11 Os bydd angen mwy o wybodaeth ar Enwebai'r Gyfadran i'w helpu i ddod i benderfyniad ar ganlyniad apêl, rhoddir pum diwrnod gwaith i'r myfyriwr gadarnhau eu bod yn bwriadu darparu'r wybodaeth ychwanegol a dyddiad cau y dylid cyflwyno'r wybodaeth honno erbyn. Os na chyflwynir y wybodaeth erbyn y dyddiad cau hwn ac os na roddir rheswm da dros yr oedi, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar yr apêl heb y wybodaeth ychwanegol.

3.12 Mae gan Enwebai'r Gyfadran 20 diwrnod gwaith o'r dyddiad y mae'r myfyriwr yn darparu'r darn perthnasol terfynol o ddogfennau neu ddyddiad yr atgyfeiriad i Gam 2 (pa bynnag sy'n ddiweddarach) i adolygu'r apêl ac ymateb, ynghyd â rheswm dros y penderfyniad, i'r Deon Cyswllt Ymchwil ac Arloesi (neu Enwebai). Ni fyddant wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'ch achos.

.

3.13 Gall y Deon Cyswllt (neu Enwebai):

a) gadarnhau penderfyniad gwreiddiol y Bwrdd Dilyniant, arholwyr neu arbenigwr pwnc annibynnol; neu

b) wahodd y Bwrdd Dilyniant, arholwyr neu arbenigwr pwnc annibynnol i ailystyried eu penderfyniad; neu

c) argymell penodi arholwyr newydd neu arbenigwr pwnc annibynnol newydd.

3.14 Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn ysgrifennu at y myfyriwr i roi gwybod beth yw canlyniad yr apêl o fewn pum diwrnod gwaith o dderbyn y canlyniad gan y Deon Cyswllt (neu Enwebai).

## ADRAN PEDWAR: GWEITHDREFN CAM 3 – CAIS AM ADOLYGIAD

### Seiliau dros adolygu

4.1 Mae gan fyfyrwyr hawl i gyflwyno cais Cam 3 i adolygu penderfyniad Cam 2 ar y seiliau canlynol.

a) Mae gennych dystiolaeth na chynhaliwyd gweithdrefnau Cam 2 yn unol â'r rheoliadau a bod hyn wedi'ch rhoi dan anfantais sylweddol.

b) Mae gennych dystiolaeth newydd a pherthnasol nad oedd ar gael, **am reswm da**, pan gyflwynwyd eich apêl.

c) Mae gennych dystiolaeth bod y canlyniad yng ngham 2 yn afresymol neu'n anghymesur.

4.2 Ni all myfyrwyr cyflwyno unrhyw faterion newydd yng ngham 3.

### Amserlenni

4.3 Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno cais am adolygiad o fewn 10 diwrnod gwaith o'r canlyniad Cam 2 gan ddefnyddio'r 'Ffurflen Cam 3 – Cais am Adolygiad' gan gynnwys tystiolaeth briodol. Gellir cael ffurflenni cais am adolygiad trwy https://registry.southwales.ac.uk/academic-registry/rheoliadau-myfyrwyr/apeliadau-academaidd/.

4.4 Bydd ceisiadau hwyr am adolygiad dim ond yn cael eu derbyn os gall y myfyriwr ddarparu rheswm da (wedi'i ategu gan dystiolaeth lle bo hynny'n briodol) am gyflwyno'r cais y tu allan i'r amserlenni. Bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig i amserlenni o ran goblygiadau fisa.

4.5 Pan na fydd modd i'r Brifysgol gadw at yr amserlenni penodol, er enghraifft oherwydd cymhlethdod yr achos, bydd y Brifysgol yn ysgrifennu at y myfyriwr i egluro'r oedi a chynnig dyddiad arall ar gyfer canlyniad yr adolygiad.

.

**Ystyriaeth gychwynnol i'r achos**

4.6 Bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cynghori'r myfyriwr o fewn pum diwrnod gwaith os yw'r cais am adolygiad yn gymwys i'w ystyried ymhellach; Hynny yw:

a) Cyflwynir achos dadleuadwy o dan o leiaf un o'r seiliau a nodir yn 4.1.

b) Mae'r cais am adolygiad wedi'i gyflwyno o fewn deg diwrnod gwaith i ganlyniad Cam 2; neu rhoddir rheswm da dros hwyrder (wedi'i ategu gan dystiolaeth fel y gofynnir gan Waith Achos Myfyrwyr).

c) Mae'r cais am adolygiad yn cael ei ategu'n briodol gan dystiolaeth.

Pan fo cais am adolygiad yn anghymwys, anfonir Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i'r myfyriwr, a fydd yn galluogi iddynt gwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) os ydynt yn parhau i fod yn anfodlon.

4.7 Os bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn penderfynu bod y cais am adolygiad yn cyflwyno achos dadleuadwy, bydd eich achos yn cael ei gyfeirio at Banel Adolygu.

**Panel Adolygu**

4.8 Bydd y Panel Adolygu yn cynnwys:

- Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil neu enwebai o'r Weithrediaeth sydd â phrofiad ymchwil (Cadeirydd);
- Un uwch aelod o staff academaidd sy'n aelodau naill ai o'r Pwyllgor Graddau Ymchwil neu Bwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadran[1] ac sydd â phrofiad o arholi a/neu gadeirio graddau ymchwil;
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu enwebai).

4.9 Bydd aelodau o'r Panel Adolygu yn annibynnol, ac ni fyddant wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol gyda'r achos.

4.10 Bydd y Panel Adolygu yn ymgynnull o fewn 20 diwrnod gwaith o'r dyddiad cyfeirio gan y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai).

4.11 Er mwyn gallu rhoi ystyriaeth lawn i'r cais am adolygiad, gall y Panel Adolygu wneud cais i'r gyfadran am wybodaeth berthnasol. Bydd y Panel Adolygu yn ystyried y cais ar y seiliau a nodir yn adran 4.1.

4.12 Cynhelir unrhyw gyfarfod o'r Panel Adolygu yn breifat fel rheol; fodd bynnag, rhoddir cyfle i'r myfyriwr ddarparu cynrychiolaeth ysgrifenedig cyn y cyfarfod.

4.13 Yn eithriadol, gellir gwahodd y myfyriwr i gyfarfod â'r Panel Adolygu i egluro manylion eu cais am adolygiad. Efallai bydd y Panel Adolygu am gyfarfod â Chadeirydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil neu barti arall cysylltiedig hefyd i ateb ymholiadau penodol.

[1] Ni fydd yr aelod panel penodedig yn aelod o Bwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadran yn y gyfadran y mae'r myfyriwr wedi'i gofrestru ynddi

.

4.14 Ni fydd gan Banel Adolygu'r awdurdod i wrthod penderfyniad y Pwyllgor Graddau Ymchwil, ac felly, bydd yn argymell dyfarnu'r radd.

4.15 Bydd y Panel Adolygu yn gwneud un o'r penderfyniadau canlynol:

a) Gwrthod yr apêl, a chadarnhau penderfyniad gwreiddiol y Bwrdd Dilyniant, arholwyr neu arbenigwr annibynnol.

Yn yr achos hwn, bydd y penderfyniad yn cael ei gyfleu i'r myfyriwr o fewn pum diwrnod gwaith o'r cyfarfod. Bydd y penderfyniad yn derfynol ac ystyrir bod y mater wedi dod i ben.

b) Gwahodd y Bwrdd Dilyniant, arholwyr neu arbenigwr annibynnol i ailystyried eu penderfyniad.

c) Argymell penodi arholwyr newydd neu arbenigwr annibynnol newydd.

Yn yr achos hwn, bydd penderfyniad y Panel Adolygu, ynghyd â'r amserlenni ar gyfer unrhyw gamau angenrheidiol pellach, yn cael eu cyfleu i chi gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, o fewn pum diwrnod gwaith o'r cyfarfod.

4.16 Nid oes unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad y Panel Adolygu. Pan fydd y Panel Adolygu yn gwrthod yr apêl, bydd llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn cael ei anfon.

4.17 Pan fydd cais am adolygiad yn arwain at ganlyniad gwahanol, os yw'r myfyriwr yn parhau i fod yn anfodlon â'r penderfyniad, bydd yn gallu gofyn am lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

4.18 Gall y Panel Adolygu wneud argymhellion i'r Is-Grŵp Rheoliadau neu'r Bwrdd Academaidd eu hystyried, fel y bo'n briodol, ar unrhyw faterion sy'n codi o ystyried apeliadau.

## ADRAN PUMP: SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL AR GYFER ADDYSG UWCH (OIA)

5.1 Os yw'r myfyriwr yn anfodlon â chanlyniad y Weithdrefn hon, gallwch, ar ôl derbyn Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol, gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA).

5.2 Gellir cael manylion yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun yn www.oiahe.org.uk. Gellir cael gwybodaeth a chyngor pellach gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.